Dogfen Wybodaeth

Geirfa Ystadegol

Rheoli Fersiynau

Cyhoeddwyd y Geirfa Ystadegol hwn ym mis Ionawr 2020.

Croesewir adborth ar y polisi hwn unrhyw adeg. Anfonwch unrhyw sylwadau i'r cyfeiriad ystadegau@cymwysteraucymru.org.

Safon Uwch

Tystysgrif Addysg Gyffredinol Safon Uwch, a elwir hefyd yn TAG Safon Uwch. Cymwysterau a gaiff eu hastudio ar ôl TGAU, mewn amrywiaeth o bynciau, fel arfer pan fydd dysgwyr yn 16-18 oed ac sydd fel arfer yn golygu astudio cwrs dwy flynedd. Fe'u defnyddir fel sail ar gyfer derbyn myfyrwyr i addysg uwch, hyfforddiant pellach neu fynediad i gyflogaeth.

Trefniadau mynediad

Trefniadau sy'n cael eu cymeradwyo cyn arholiad neu asesiad i alluogi sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth gael eu dangos gan ymgeiswyr sydd ag anabledd neu anhawster dysgu parhaol neu hirdymor, neu anaf dros dro, salwch, anhwylder neu gyflwr meddygol, neu angen addysgol arbennig, gan gynnwys lle nad Cymraeg, Saesneg neu Wyddeleg yw mamiaith yr ymgeisydd.

Uwch Gyfrannol (UG)

Cymhwyster sy'n ffurfio rhan gyntaf cymhwyster Safon Uwch. Gellir ei ystyried yn gymhwyster sy'n sefyll ar ei ben ei hun. Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon mae'n cyfrannu at ganlyniadau Safon Uwch. Yn Lloegr, ni all cymwysterau UG gyfrannu at Safon Uwch.

Cymeradwyo cymwysterau/meini prawf cymeradwyo/cymwysterau cymeradwy

Pan gaiff cymhwyster ei restru ar y Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol rydym yn cyhoeddi meini prawf ar ei gyfer. Cymeradwyo yw ein proses o gymeradwyo cymwysterau o'r fath yn erbyn y meini prawf cymeradwyo. Ni chaiff cymwysterau cymeradwy eu rheoleiddio gan reoleiddwyr cymwysterau eraill yng Nghymru ac maent fel arfer wedi'u llunio i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr yng Nghymru.

Corff dyfarnu

Sefydliad sy'n datblygu cymwysterau, yn pennu ac yn monitro asesiadau, ac yn cyhoeddi dyfarniadau i ddysgwyr, gan roi cydnabyddiaeth ffurfiol i'r deilliannau dysgu (gwybodaeth, sgiliau a/neu gymwyseddau), yn dilyn gweithdrefn asesu a dilysu. Mewn rhannau eraill o'r DU, gelwir y rhain yn Sefydliadau Dyfarnu neu'n Fyrddau Arholi.

Cydnabyddiaeth corff dyfarnu

Er mwyn cynnig cymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru, mae'n rhaid i gorff dyfarnu gael ei gydnabod gan Cymwysterau Cymru. Mae angen i gyrff dyfarnu gydymffurfio â'n meini prawf cydnabod a gwneud cais am gydnabyddiaeth.

Cyfnewid

Mae ysgolion a cholegau yn cofrestru myfyrwyr sy'n cwblhau cymhwyster ac sydd eisiau hawlio eu gradd derfynol yn y sesiwn arholiad hwnnw.

Canolfan

Corff sy'n darparu asesiadau (a gweithgareddau eraill o bosibl) i ddysgwyr ar ran corff dyfarnu. Fel arfer, sefydliadau addysgol, darparwyr hyfforddiant neu gyflogwyr yw canolfannau.

Tystysgrif/Ardystio

Cydnabyddiaeth ffurfiol o gyflawniad myfyriwr. Bydd yn cynnwys unrhyw ddyfarniad nad yw wedi ei raddio'n U, yn absennol neu'n X (methu).

Dyddiad Gorffen yr Ardystiad

Ni ellir dyfarnu cymhwyster i ddysgwyr, fel cymhwyster cymeradwy neu ddynodedig, ar ôl y dyddiad hwn.

Cymwysterau Dynodedig

Cymwysterau rheoleiddiedig a ddynodir gan Cymwysterau Cymru yn rhai sy'n gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed, fel y'u diffiniwyd o dan adran 29 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015. Rydym yn ystyried nifer o faterion wrth benderfynu a ddylai cymwysterau gael eu dynodi.

TGAU

Mae Tystysgrifau Cyffredinol Addysg Uwchradd ar gael mewn ystod eang o bynciau. Cymwysterau TGAU yw'r prif gymwysterau cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 ar gyfer dysgwyr 14-16 oed yng Nghymru. Gellir eu defnyddio fel sylfaen ar gyfer astudiaeth neu hyfforddiant lefel uwch, neu i gael mynediad uniongyrchol i gyflogaeth.

Cymhwyster Cyffredinol

Term sy'n disgrifio cymwysterau a gymerir fel arfer gan ddysgwyr yn yr ysgol neu'r coleg fel rhan o'u haddysg statudol neu eu haddysg bellach. Mae hyn yn cynnwys

cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru a chymwysterau eraill sy'n rhannu rhai o'r nodweddion sy'n gyffredin i gymwysterau TGAU a Safon Uwch. CBAC yw prif ddarparwr y cymwysterau hyn yng Nghymru, ond caiff rhai eu cynnig gan gyrff dyfarnu eraill hefyd.

Llinol

Mae cymwysterau llinol wedi'u cynllunio fel bod yr holl asesu-mewn pwnc yn cael ei gwblhau ar ddiwedd y rhaglen ddysgu. Mae hyn yn golygu bod angen i ddisgybl sefyll yr holl gydrannau asesu ar gyfer y cymhwyster (arholiadau, ac ar gyfer rhai pynciau, mathau eraill o asesiad dan reolaeth) bob tro y caiff ei gofrestru gan ei ysgol neu goleg i dderbyn gradd.

Camweinyddu

Methiant i gadw at y rheoliadau sy'n ymwneud â chynnal asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs, arholiadau ac asesiadau di-arholiad, neu gamarfer wrth gynnal arholiadau/asesiadau a/neu ymdrin â phapurau cwestiynau arholiad, sgriptiau ymgeiswyr, taflenni marcio, cofnodion asesu cronnol, canlyniadau a ffurflenni hawlio tystysgrifau, ac ati.

Camymddwyn

Ystyr camymddwyn yw unrhyw weithred, ddiffyg neu arfer sy'n torri rheoliadau'r corff dyfarnu, neu sy'n gwneud un neu ddau o'r canlynol:

- yn peryglu, ceisio peryglu neu allai beryglu'r broses asesu, uniondeb unrhyw gymhwyster neu ddilysrwydd canlyniad neu dystysgrif;
- yn niweidio awdurdod, enw da neu hygrededd unrhyw gorff dyfarnu neu ganolfan neu unrhyw swyddog, gweithiwr neu asiant i unrhyw gorff dyfarnu neu ganolfan.

Mae camymddwyn yn cynnwys camweinyddu a pheidio â chydymffurfio â'r rheoliadau. Methiant gan ganolfan i hysbysu, ymchwilio ac adrodd i gorff dyfarnu am bob honiad gamymddwyn neu amheuaeth o gamarfer o fewn y ganolfan. Mae methu â chymryd camau fel sy'n ofynnol gan gorff dyfarnu a methu â chydweithredu ag ymchwiliad corff dyfarnu hefyd yn gyfystyr â chamymddwyn.

Mae rhagor o wybodaeth am gamymddwyn, manylion am y troseddau sy'n gyfystyr â chamymddwyn a'r cosbau a roddir yng nghanllawiau camymddwyn y Cyd-gyngor Cymwysterau.

Papurau wedi'u haddasu

Gwneir cais am bapurau cwestiynau wedi'u haddasu cyn cyfres arholiadau benodol ac fe'u paratoir yn unigol ar gyfer ymgeiswyr y mae trefniadau mynediad eraill yn anaddas ar eu cyfer. Mae papurau cwestiynau wedi'u haddasu yn caniatáu i ymgeiswyr sydd ag amrywiaeth o namau ar y golwg neu anhwylderau deall iaith sylweddol ddangos eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol

Cymwysterau seiliedig ar gymhwysedd sy'n ymwneud â gwaith sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o sectorau diwydiant a galwedigaethau, ac sy'n cael eu cyflwyno yn y gweithle.

Cofrestr Ofqual

Mae'r Gofrestr Cymwysterau Rheoleiddiedig yn cynnwys manylion y cymwysterau a'r sefydliadau dyfarnu a reoleiddir gan Ofqual a CCEA Regulation.

Cymwysterau cyffredinol eraill

Cymwysterau sy'n asesu maes pwnc penodol, megis cerddoriaeth neu gelf, heblaw am gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch. Nid yw'r cymwysterau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith ond gallant gefnogi datblygiad gyrfa. Maent yn aml yn cael eu strwythuro yn erbyn arholiadau graddedig. Mae'r categori hefyd yn cynnwys cymwysterau sy'n cael eu categoreiddio'n dystysgrifau lefel 1/2.

Cymwysterau rheoleiddiedig eraill

Y cymwysterau hynny a ddyfernir yng Nghymru gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig, nad ydynt wedi'u dynodi na'u cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, ac nad yw cyrff dyfarnu wedi'u hildio na'u heithrio o gwmpas eu cydnabyddiaeth.

Cymhwyster

Dyfarniad a wneir gan gorff dyfarnu i ddangos y cymhwysedd a gyflawnwyd gan ddysgwr.

Lefel y cymhwyster

Y lefel cyrhaeddiad y mae cymhwyster yn ei chynrychioli fel y'i diffinnir gan Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC). Mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru wedi'i gysoni â Fframwaith Cymwysterau Ewrop (FfCE). Mae hyn yn golygu y gellir cymharu lefel cymhwyster a enillir yng Nghymru â lefel yn yr

FfCE Mae hyn yn helpu pobl a sefydliadau i drosglwyddo cyflawniadau rhwng gwledydd a gweithio ledled yr Undeb Ewropeaidd.

Math o gymhwyster

Mae mathau o gymhwyster yn cyfeirio at grwpiau o gymwysterau sydd wedi cael eu datblygu i fodloni gofynion dylunio cyffredin. Efallai na fydd gofynion dylunio ar gyfer rhai mathau o gymhwyster yn weithredol mwyach, megis cymwysterau'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (a luniwyd i fodloni gofynion y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau).

Fframwaith Credydau a Chymwysterau (FfCCh)

Fframwaith, sydd wedi dod i ben erbyn hyn, ar gyfer cymwysterau sy'n cynnwys unedau a chymwysterau mewn tri maint. Dyfarniadau (1-12 credyd), tystysgrifau (13-36 credyd) a diplomâu (37 credyd neu fwy).

Cymwysterau yng Nghymru (QiW)

Cronfa ddata sydd ar gael i'r cyhoedd sy'n cynnig ffynhonnell o wybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig a ddyfernir yng Nghymru.

Chwarter

Mae'n cyfeirio at chwarteri calendr. Mae chwarter 1 (Ch1) yn cyfeirio at Ionawr – Mawrth, chwarter 2 (Ch2) at Ebrill – Mehefin, chwarter 3 (Ch3) at Orffennaf – Medi, a chwarter 4 (Ch4) at Hydref – Rhagfyr.

Addasiadau rhesymol

Addasiadau a wneir i arholiad neu asesiad i alluogi ymgeisydd sydd ag anableddau i ddangos ei gwybodaeth, ei sgiliau a'i ddealltwriaeth fel na fydd yr anabledd yn rhoi'r ymgeisydd o dan anfantais sylweddol o gymharu ag ymgeisydd nad yw'n anabl. Gall addasiad rhesymol ar gyfer person penodol fod yn unigryw i'r unigolyn hwnnw ac efallai na fydd wedi'i gynnwys ar y rhestr o Drefniadau Mynediad sydd ar gael[1], sy'n golygu efallai na fydd wedi'i gynnwys yn y data hyn.

Cymwysterau rheoleiddiedig

Pob cymhwyster nad yw'n radd (p'un a yw'n gymhwyster cymeradwy, dynodedig neu fath arall o gymhwyster rheoleiddiedig) a gynigir i'w ddyfarnu gan gorff dyfarnu a gydnabyddir gan Cymwysterau Cymru (oni bai fod corff dyfarnu wedi ildio ei gydnabyddiaeth mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw, neu wedi eithrio'r

[1] http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration

cymhwyster hwnnw o gwmpas ei gydnabyddiaeth drwy hysbysu Llywodraeth Cymru cyn 21 Medi 2015).

Maes Pwnc Sector

Mae meysydd pwnc sector yn gyfres o gategorïau sy'n seiliedig ar sectorau diwydiant a phynciau academaidd a ddefnyddir i ddosbarthu cymwysterau.

Y Dystysgrif Her Sgiliau

Y cymhwyster sy'n ffurfio rhan ganolog o Fagloriaeth Cymru (gweler isod).
Mae angen i ddysgwyr gwblhau pedwar asesiad fel rhan o'r Dystysgrif Her Sgiliau:

- Prosiect Unigol
- Her Menter a Chyflogadwyedd
- Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Her Gymunedol

Ystyriaeth arbennig

Ystyriaeth a roddir i ymgeiswyr sydd wedi profi salwch, anaf neu ryw ddigwyddiad arall y tu hwnt i'w rheolaeth dros dro sydd wedi effeithio ar eu gallu i sefyll asesiad neu ddangos lefel eu cyrhaeddiad mewn asesiad.

Cais am ystyriaeth arbennig

Mae cais am ystyriaeth arbennig yn wahanol i gais gan fod sawl ymgeisydd neu uned/cydran yn gallu bod yn rhan o'r un cais am ystyriaeth arbennig. Er enghraifft, gellir cyflwyno ceisiadau am ystyriaeth arbennig ar ran sawl ymgeisydd a effeithiwyd gan yr un anfantais gyda'i gilydd mewn un cais.

Cais am ystyriaeth arbennig

Mae cais am ystyriaeth arbennig yn benodol i ymgeisydd unigol sy'n sefyll uned neu gydran benodol ar gyfer cymhwyster mewn cyfres arholiadau.

Maes Pwnc Is-sector (categori Pwnc Sector gynt)

Meysydd is-sector yw'r ail haen o gategorïau sy'n seiliedig ar sectorau diwydiant a phynciau academaidd a ddefnyddir i ddosbarthu cymwysterau.

Ildio Cydnabyddiaeth

Gall cydnabyddiaeth ddod i ben pan fo corff dyfarnu yn penderfynu ildio cydnabyddiaeth yn rhannol neu'n llawn. Gall cyrff dyfarnu cydnabyddedig ildio rhan o'u cydnabyddiaeth drwy hysbysu Cymwysterau Cymru am gymwysterau, neu ddisgrifiadau o gymwysterau, yr hoffent eu cynnig fel cymwysterau nas rheoleiddir.

Yn yr achosion hyn, ni all y cymwysterau nas rheoleiddir gynnwys logo Cymwysterau Cymru ar y tystysgrifau a roddir i ddysgwyr.

Unedol

Mae cymwysterau unedol wedi eu cynllunio fel bod modd i ddisgyblion gymryd unedau asesu ar wahanol adegau yn ystod y cwrs, gyda gradd derfynol yn cael ei 'chyfnewid' ar ddiwedd y rhaglen ddysgu unwaith y bydd disgybl wedi cwblhau'r holl unedau. Ar gyfer TGAU, mae'n rhaid i'r dysgwyr gwblhau lleiafswm o'r asesiad ar gyfer cymhwyster yn y gyfres lle maen nhw'n cyfnewid.

Cymhwyster Galwedigaethol

Cymwysterau a ddyfernir gan gorff dyfarnu ac y rhoddir tystysgrif ar eu cyfer, a astudir gan ddysgwyr 14 oed neu'n hŷn, ac sy'n asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a/neu sgiliau sy'n ymwneud yn benodol â byd gwaith. Mae'r cymwysterau hyn yn is-set i'r cymwysterau a gynhwysir yn yr ystadegau yn y cyhoeddiad hwn.

Cymwysterau sy'n ymwneud â galwedigaeth

Cymwysterau seiliedig ar gymhwysedd sy'n ymwneud â gwaith a luniwyd i roi'r sgiliau a'r wybodaeth i fyfyrwyr sydd eu hangen i wneud swydd. Maent yn gysylltiedig â chyflogaeth ond, yn wahanol i gymwysterau NVQ, nid ydynt o reidrwydd yn gofyn am brofiad nac asesiad yn y gweithle.

Bagloriaeth Cymru

Mae Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster cyfansawdd sy'n cynnwys Tystysgrif Her Sgiliau; mae hyn yn asesu'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc ar gyfer coleg, prifysgol, cyflogaeth a bywyd. Ochr yn ochr â'r Dystysgrif Her Sgiliau, mae dysgwyr yn astudio detholiad o gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol sy'n briodol i'w hanghenion er mwyn ennill Bagloriaeth Cymru.

Blwyddyn 10

Myfyrwyr sy'n 15 oed erbyn 31 Awst mewn blwyddyn academaidd benodol.

Blwyddyn 11

Myfyrwyr sy'n 16 oed erbyn 31 Awst mewn blwyddyn academaidd benodol.

Blwyddyn 12

Myfyrwyr sy'n 17 oed erbyn 31 Awst mewn blwyddyn academaidd benodol.

Blwyddyn 13

Myfyrwyr sy'n 18 oed erbyn 31 Awst mewn blwyddyn academaidd benodol.